# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mawrth, 11 Medi 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
M. Bull, Rheolwr Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol;
B. Hale, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd;
C. Owen, Cynorthwyydd Adfywio Cymunedol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Arweinydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 2.00 pm - 2.45 pm

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 18 GORFFENNAF 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR A'R CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm a'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Neuadd Eglwys Sant Edmwnd | £2,363.20 |
| Canolfan Gymunedol y Mynydd Du | £3,000.00 |
| Menter Cilycwm | £3,000.00 |
| Cyngor Tref Cwmaman | £10,000.00 |

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI.**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. CRONFA CYCHWYN BUSNES/TWF BUSNES SIR GAERFYRDDIN**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Yn dilyn cofnod 3 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2018 ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol geisiadau am gymorth gan Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Twf Busnes Sir Gaerfyrddin. Blaenoriaeth y ddwy gronfa oedd cefnogi'r gwaith o greu swyddi a busnesau newydd yn y Sir. Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fân newidiadau a wnaed i'r ddogfennaeth ar gyfer y naill Gronfa a'r llall, a ddigwyddodd yn sgil oedi wrth lansio'r cynllun a'r trefniadau ymarferol cysylltiedig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Twf Busnes Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Corgi Hosiery | £10,000.00 |
| Coaltown Coffee | £10,000.00 |
| Evans & Wilkins | £2,499.50 |
| Oreknot Creative Hub | £2,233.64 |
| Hafod Finance Solutions Ltd | £1,130.36 |
| Ickle Bubba | £10,000.00 |
| Trywydd | £2,500.00 |
| Broadleaf Timber Ltd | £10,000.00 |
| Sonex 3 Financial Ltd | £8,044.00 |
| Atebol | £10,000.00 |
| Ty Gofal Ltd | £9,842.72 |
| Divine Health & Beauty | £9,764.70 |

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**